**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET - PARC COFFA YNYSANGHARAD**
Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad a gynhaliwyd Dydd Iau, 11 Mai 2023 am 12.30 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Webber (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd S Powderhill

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr P Mortimer, Rheolwr Cyllid a Gweithredu

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd K Johnson

### 4 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, y buddiant personol canlynol: 'Rydw i'n Gyfarwyddwr Achlysur Parkrun Pontypridd'.

### 5 Cofnodion

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023, yn rhai cywir.

### 6 CYFLEOEDD POSIBL I GREU MAN CYNNAL ACHLYSURON YCHWANEGOL YM MHARC COFFA YNYSANGHARAD

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yr adroddiad, a oedd yn gofyn am sylwadau a chymeradwyaeth ymddiriedolwyr ar gymryd camau pellach o ran cyfle ailddatblygu posibl i greu man cynnal achlysuron ym Mharc Coffa Ynysangharad fyddai'n cefnogi gwaith cynnal achlysuron mawr, cyn i'r Cabinet ei drafod.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 5 yr adroddiad, lle'r oedd manylion y cynnig wedi'u hamlinellu. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod ar 15 Mai 2023 pe bydden nhw'n cytuno â'r argymhellion yn adran 2 yr adroddiad.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, anerchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson y Pwyllgor mewn perthynas â'r cynnig.

Gofynnodd ymddiriedolwyr am sicrwydd a chadarnhad gan Gyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu nad oes unrhyw fwriad i greu maes parcio ychwanegol na man troi cerbydau ar y tir yn rhan o'r cynnig. Cydnabuwyd bod y cynnig yn ddatrysiad tirlunio meddal sy'n ceisio gwneud y man gwyrdd yn fwy defnyddiadwy.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden bwysigrwydd rhaglen plannu coed gadarn y Cyngor a nododd fod dros 400 o goed, gwrychoedd a llwyni wedi cael eu plannu mewn parciau yn ystod y tymor plannu coed diwethaf. Rhoddwyd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y byddai gwaith yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod cyn lleied o goed â phosibl yn cael eu torri.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol am yr ystod eang o ddefnyddwyr a grwpiau sy'n defnyddio mannau gwyrdd y parc a nododd y byddai sefydlu'r man yn gwella'r hyn sydd gan y parc i'w gynnig ymhellach.

Roedd y Cadeirydd o blaid y cynigion a phwysleisiodd y byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Cabinet er lles gorau'r parc, trigolion a'r Fwrdeistref Sirol ehangach.

**PENDERFYNODD** yr Is-bwyllgor:
1. Yn dilyn trafod cynnig dyluniad y cysyniad, cefnogi'r cynnig a'r penderfyniad i gyflwyno cais ffurfiol am gyllid; a
2. Rhoi adborth am benderfyniad y Pwyllgor i'r Cabinet yn y cyfarfod ar 15 Mai 2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.47 pm**

**Cllr M Webber**
**Cadeirydd.**